



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Institute of Education
Addysg i Gymru Education for Wales

LLAWLYFR MODWL

ECAD7004C

**Astudiaethau Proffesiynol ac Addysgegol:
Ymchwilio i'r Dysgu: beth, sut a pham rydw
i'n addysgu?**

Tystysgrif Addysg i Raddedigion

LEFEL 7

YR ATHROFA

2023-24

1. Manylion cyswllt

Os bydd angen trafod rhywbeth sy'n ymwneud â'r modwl arnoch, cysylltwch â:

Dr. Catherine Morgan: c.morgan@uwtsd.ac.uk (yn y Gymraeg neu'r Saesneg)

Elaine Sharpling: elaine.sharpling@uwtsd.ac.uk (Saesneg yn unig)

2. Ein disgwyliadau

Gobeithiwn y byddwch yn mwynhau'r modwl a'r rhaglen ac rydym yma i'ch helpu.

Dylech:

- Wneud defnydd da o gyfleusterau ac adnoddau'r Brifysgol
- Mynychu sesiynau a chymryd rhan ynddynt
- Ymddwyn yn gyfrifol
- Cyflwyno aseiniadau erbyn y dyddiad terfyn
- Ymroi a chymryd rhan ym mhob sesiwn

Darllenwch Reoliadau'r Brifysgol i Fyfyrwyr

3. Amcanion a Deilliannau Dysgu

AMCANION

- Addysgu'r sgiliau a'r nodweddion ymchwil gofynnol i athrawon dan hyfforddiant er mwyn iddynt gymryd ymagwedd sgeptigol at ddadansoddi, gwerthuso a chyfosod yn feirniadol ystod o safbwyntiau seiliedig ar dystiolaeth a fframweithiau damcaniaethol sy'n berthnasol i ddysgu ac addysgu effeithiol.
- Galluogi athrawon dan hyfforddiant i fod yn ymchwilwyr moesegol sydd yn hunangyfeiriol wrth gynllunio, gweithredu a gwerthuso ymchwil agos-at-arfer i drawsnewid arfer personol a hyrwyddo datblygiad proffesiynol mewn cymuned ymholi.

DEILLIANNAU DYSGU

Ar ôl cwblhau'r modwl hwn yn llwyddiannus, dylai'r athro dan hyfforddiant allu dangos y gallu i:

- gynllunio a chymhwyso methodolegau ymchwil priodol gan ddangos dealltwriaeth feirniadol o natur ymchwil addysgol: bod yn ymchwilydd medrus;
- adfyfrio'n feirniadol ar le canolog arfer moesegol o fewn ymchwil yn y dosbarth, ac arddangos dealltwriaeth fanwl o'i egwyddorion: bod yn ymchwilydd moesegol;
- dangos rhywfaint o ymreolaeth wrth gynnal ymholiad agos-at-arfer i drawsnewid agwedd ar arfer personol sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau dysgwyr: dangos trylwyredd wrth gymhwyso sgiliau ymchwil priodol;
- dadansoddi a gwerthuso'n feirniadol y dystiolaeth empirig berthnasol, gan gynnwys llenyddiaeth addysg a dogfennau polisi, i nodi cysyniadau allweddol a defnyddio hyn i ffurfio dulliau addas i drawsnewid arfer dosbarth;
- gwerthuso tystiolaeth ymchwil yn feirniadol, gan ddangos barn gadarn ynglŷn â data i gefnogi penderfyniadau addysgegol a rhannu deilliannau mewn cyd-destun proffesiynol: bod yn rhan o broffesiwn sy'n seiliedig ar ymholi.

Perthynas â phedwar diben y Cwricwlwm i Gymru 2022:

Datblygu plant a phobl ifanc yn:	Perthynas â'r modwl hwn: Bydd myfyrwyr yn gallu:
Ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes.	Gwneud defnydd o'r dystiolaeth empirig gyfredol a chyfrannu at y sylfaen ymchwil er mwyn codi safonau a dyheadau'r holl ddysgwyr.
Cyfranwyr mentrus, creadigol, sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith.	Defnyddio ymchwil agos-at-arfer i ddarparu ystod o gyfleoedd dysgu creadigol sy'n hyrwyddo ymreolaeth ac sy'n berthnasol i fywydau'r dysgwyr.
Dinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd.	Mabwysiadu rôl athro proffesiynol o ran deall sgiliau cymhleth arfer moesegol.
Unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.	Cymhwyso dealltwriaeth o ddamcaniaethau ac ymchwil sy'n ymwneud â lles a datblygiad, i arfer personol.

4. Cyflwyniad i'r Modwl

Dangos tystiolaeth o ymchwil, cael eich llywio ganddo a bod yn barod ar ei gyfer yw un o'r pedair egwyddor ym Mhartneriaeth Dysgu Proffesiynol Yr Athrofa ac felly mae datblygu sgiliau ymchwil yn ganolog i'r rhaglenni Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA). Mae'r gwaith o ddynodi datblygiad a chynnydd sgiliau ymchwil trwy'r rhaglenni AGA wedi'i fapio ar strwythur modwlar y rhaglen.

Yn rhyngwladol, amgylcheddau ysgol sy'n seiliedig ar ymholi (neu sy'n gynhyrchu o ran ymchwil) yw nodwedd amlycaf systemau addysg sy'n gwneud yn arbennig o dda. Er mwyn bod ar eu mwyafr effeithiol, mae angen i athrawon ac addysgwyr athrawon:

- **ymgysylltu ag** ymchwil ac ymholi – golyga hyn gadw'n gyfredol â'r datblygiadau diweddaraf o fewn arfer addysgol;
- **cymryd rhan mewn** arfer sy'n canolbwyntio ar ymholi – golyga hyn bod â'r gallu, y cymhellad, yr hyder a'r cyfle i ymgymryd ag ymchwil yn y dosbarth.

Daeth ymholiad BERA/RSA (2014) i'r casgliad fod proffesiwn llythrennog o ran ymchwil yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau dysgwyr, a bod gallu ymchwil athrawon yn hanfodol i greu system addysg hunanwella. Yn ôl yr adroddiad mae angen cynnal ffocws ar arfer sy'n seiliedig ar ymholi ... trwy gydol gyrfaedd proffesiynol athrawon, fel bod arloesi disgybledig ac ymholi cydweithredol yn cael eu hymgorffori ym mywydau ysgolion neu golegau nes mai dyna yw'r ffordd arferol o addysgu a dysgu, yn hytrach na'r eithriad (BERA/RSA, 2014¹).

Yn ychwanegol, mae ymchwil wedi'i nodi'n glir o fewn y Safonau Proffesiynol diwygiedig i athrawon.

“Ceir ymgysylltu strwythuredig mewn cymuned ymchwil weithredu a thystiolaeth o arfer sy'n cael ei llywio gan waith darllen ehangach a chanfyddiadau ymchwil ar raddfa genedlaethol a rhyngwladol” (LIC, 2017a²).

¹ BERA/RSA (2014) Research and the Teaching Profession: Building the capacity for a self-improving education system. London: BERA.

² Llywodraeth Cymru (2017a) Y Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth. Caerdydd: LIC. <https://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/170901-professional-standards-for-teaching-and-leadership-en.pdf>

Bydd yn ofynnol i athrawon ddangos sut maen nhw'n bodloni'r safon hon trwy gydol eu gyrfaedd. Mae Llywodraeth Cymru yn dyheu i'r proffesiwn addysgu fod yn "ymgymryd â gwaith ymchwil, yn hyddysg ac yn dysgu o ragoriaeth" (LIC, 2017b³) Bydd y cwricwlwm newydd sy'n cael ei ddatblygu yng Nghymru yn ei gwneud yn ofynnol i athrawon ddefnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael i ddarparu profiadau dysgu ystyrlon ar gyfer eu disgyblion. Mae Donaldson (2015, t.71) yn datgan fod addysgeg gadarn "...yn galw am athrawon o ansawdd uchel sydd â dealltwriaeth drylwyr o ddulliau addysgu a'r rhesymau drostynt yn ogystal â chynnwys yr addysgu".

Trwy gydol y pedwar modwl TAR, mae gwaith Orchard a Winch (2015)⁴ wedi'i addasu a'i grynhoi yn bedair nodwedd ymchwil. Mae'r rhain yn cael eu hegluro gan ddefnyddio enghreifftiau o wybodaeth, sgiliau, dealltwriaethau ac ymddygiadau sy'n amlygu'r nodwedd (gweler Tabl 1 isod).

Yn y modwl hwn, cewch gyfle i ymgymryd â phrosiect ymchwil ar raddfa fach, yn seiliedig ar ddull astudiaeth achos. Bydd hyn yn cynnwys dylunio, cynnal a gwerthuso ymchwil mewn cyd-destun ystafell ddosbarth yn seiliedig ar agwedd o'ch arfer personol chi.

³ Llywodraeth Cymru (2017b) Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl. Caerdydd: LIC.

⁴ Orchard J. & Winch C. (2015) *Philosophical Perspectives on Education Policy. What training do teachers need? Why theory is necessary to good teaching*. IMPACT no.22

<i>Nodwedd</i>	Gwybodaeth, sgiliau, dealltwriaethau ac ymddygiadau
<i>Bod yn sgeptigol</i>	Deall tystiolaeth empirig mewn maes dadleuol: Bod yn ymwybodol o'r gyrwyr gwleidyddol, economaidd a chymdeithasol o blaid 'tystiolaeth', a goblygiadau 'tystiolaeth'.
<i>Bod yn foesegol</i>	Deall sylfaen foesegol ymholi mewn gweithle cymhleth: - Gwybod egwyddorion moesegol ymchwil; - Deall ymagweddu (<i>positionality</i>) mewn ymchwil; - Deall eich credoau a'ch tybiaethau eich hun am y byd.
<i>Bod yn ymchwilydd medrus</i>	Deall egwyddorion ymchwil y gwyddorau cymdeithasol, a gwybod y gwahanol fathau o ddulliau a ddefnyddir a pham: - Deall dulliau ansoddol a natur/statws canfyddiadau; - Deall dulliau meintiol a natur/statws canfyddiadau; - Deall dyluniadau pragmatig. Deall sut i adeiladu dadl ar sail tystiolaeth a gwarant mewn ymchwil addysgol: - Defnyddio sgiliau darllen beirniadol; - Bod yn 'sgeptigol' eich agwedd at 'dystiolaeth'. Gwerthfawrogi'n feirniadol faint o gefnogaeth a all fod ar gael neu beidio ar gyfer theorïau poblogaidd a dylanwadol mewn meysydd megis datblygiad plant a natur dysgu: - Bod yn 'sgeptigol' eich agwedd at 'arloesi' (polisi ac ymarfer) neu'r 'peth mawr nesaf'. Deall sut i ddefnyddio tystiolaeth empirig yn eich ystafelloedd dosbarth a gwerthuso ei heffeithiolrwydd: - Bod yn glir am yr hyn a fwriedir a pham; - Diffinio'r paramedrau ar gyfer gwerthuso effeithiolrwydd.
<i>Bod yn rhan o broffesiwn ymholgar</i>	Cyfrannu i gymuned o ymarferwyr ymholgar: - Gwybod a ddylid, pryd a sut i rannu deilliannau ymholiad dosbarth; - Cyfrannu'n rhagweithiol i amrywiaeth o gynulleidfaoedd; - Mynd ati i ymwneud ag ymholi a chanfyddiadau pobl eraill.

Tabl 1

5. Cynnwys y Modwl

Bod yn Ymchwilydd Moesegol	
Bod yn Ymchwilydd Medrus	
Bod yn Ymchwilydd Sgeptigol	
Bod yn rhan o Broffesiwn Ymholgar	
Gweithgaredd pontio (cyfnewid gwybodaeth ddeallusol a thrwy brofiadau)	

Eiconau dysgu cyfunol

Symbol	Ystyr
	Dysgu cydamserol – bydd gofyn i chi gymryd rhan mewn gweithgareddau amser real ar-lein fel rhan o'r ddarpariaeth.
	Dysgu asynchronig – ni fydd angen i chi gymryd rhan mewn gweithgarwch amser real, er y bydd gofyn i chi weithio'n annibynnol trwy dasgau hanfodol.
	Tasg dan gyfarwyddyd – bydd gofyn i chi gymryd rhan yn annibynnol mewn tasg a osodwyd fel paratoi ar gyfer sesiwn neu fel dilyniant i sesiwn.
	Wyneb yn Wyneb – Sesiynau ar y campws.

Dyddiad	Sesiwn / Nodwedd Ymchwil	Cynnwys	Dull cyflwyno a fwriedir
05/03/24 9:00 – 11:00	1 Bod yn rhan o Broffesiwn Ymholgar	Cyflwyniad i'r modiwl a man ymchwil o fewn y gymuned addysgol ehangach. Bod yn feirniadol - ysgrifennu proffesiynol: beth sy'n ddisgwyliedig o aseiniad ymchwil ar y lefel yma? Dechreuwch sgwrs am 'sylwi': • pa syniadau sydd gennych am 'ymholi'? ('inquiring') • beth allai 'ymchwiliad' ei olygu? • Sut gallai gwneud ymchwil / ymchwiliad drawsnewid agwedd ar fy arferion?	
05/03/24 11:00 – 1:00	2 Bod yn Ymchwilydd Moesegol	Bod yn foesebol – yr egwyddor y mae ymchwil addysg wedi'i seilio arni Cyflwyniad ar Ganllawiau Moesegol BERA ar gyfer Ymchwil Addysgol Bod yn ymarferydd moesegol – caniatâd rhieni / cydsyniad plant / cyfrinachedd / rheoli casglu data Edrych ar enghreifftiau o ganiatâd a chydsyniad plant	
05/03/24 2:00- 4:00	3 Bod yn Ymchwilydd Moesegol	Safleoldeb: meddwl am ddyluniad ymchwil	
Darllen Hanfodol		British Education Research Association (2018) Ethical Guidelines for Educational Research, 4th edition. BERA. www.bera.ac.uk/publication/ethical-guidelines-for-educational-research-2018	
Darllen a Argymhellir		Blackburn, C. (2018) Researching with young and developmentally young children: Ethical considerations, dilemmas and compromises. In <i>BERA Bites: Early Childhood</i>, Issue 1. David, M., Edwards, R. & Alldred, P. (2001) Children and School-based Research: 'informed consent' or 'educated consent'? In <i>British Educational Research Journal</i>, Vol. 27, No. 3, pp.347-365.	

06/03/24 9:00-11:00	4 Bod yn Ymchwilydd Medrus	Ymchwil agos at ymarfer: Astudiaeth Achos; mynd â chwyddwyr i'r ystafell ddosbarth. Beth yw'r 'achos'? Beth yw cryfderau a chyfyngiadau dull astudiaeth achos?	
Darllen a Argymhellir		Hamilton, L. (2011) Case studies in educational research, British Educational Research Association on-line resource. Zainal, Z. (2007). Case Study as a Research Method. Jurnal Kemanusiaan, 9, 1-6.	
06/03/24 11:00-1:00	5 Bod yn ymchwilydd medrus	Bod yn ymchwilydd medrus - pa offer ymchwil y gellir eu defnyddio i gynhyrchu data er mwyn ateb eich cwestiwn ymchwil (1)? Offer ymchwil: • Holiaduron • Cyfweliadau • Ystyried y sampl	
Darllen a Argymhellir		Danby, S.J., Ewing, L. & Thorpe, K.J. (2011) The novice researcher: interviewing young children. <i>Qualitative Enquiry</i> , 17(1), pp. 74-84.	
06/3/24 2:00-4:00	6 Bod yn ymchwilydd medrus	Bod yn ymchwilydd medrus - pa offer ymchwil y gellir eu defnyddio i gynhyrchu data er mwyn ateb eich cwestiwn ymchwil (2)? Offer ymchwil: • Arsylwi (graddfa Leuven: archwilio sefyllfa mewn ymchwil drwy gymharu canlyniadau arsylwi'r un ffynhonnell â'ch cyfoedion) • Dull mosaig, gan gynnwys sylwadau gweledol, dulliau ymchwil amgen	
Darllen a Argymhellir		Kawulich, B. (2012) Collecting data through observation. Yn Wagner, C., Kawulich, B. & Garner, M. (eds.) <i>Doing Social Research: A Global Context</i> . McGraw Hill; pp150-160. ECRP (2005) Wondering with Children: The Importance of Observation in Early Education. <i>ECRP Vol. 7, No. 2</i> . ecrp.uiuc.edu/v7n2/forman.html/ (i fyfyrwyr sy'n gweithio gyda phlant ifanc iawn)	

11/03/24 9:00-11:00	7 Bod yn rhan o Broffesiwn Ymholgar	Bod yn sceptigol drwy ddatblygu safiad beirniadol. Sylwi: beth ydych chi wedi 'sylwi'? Nodwch agwedd ar arfer personol a fyddai'n elwa o gael ei 'drawsnewid'. Defnyddiwch fyfyrddodau blaenorol, adborth ac unrhyw ffynonellau eraill o dystiolaeth i lywio'ch dewis. Ffurfio cwestiwn ymchwil; datblygu dyluniad ymchwil. Strwythur yr aseiniad.	
05/03/24 2:00- 4:00	8 Bod yn rhan o Broffesiwn Ymholgar	Lle llenyddiaeth mewn ymchwil. Ysgrifennu adolygiad llenyddol.	
12/03/24 9:00-11:00	9 Bod yn Ymchwilydd Medrus	Fframio cwestiwn ymchwil; datblygu cynllun ymchwil.	
12/03/24 11:00-1:00	10 Bod yn rhan o Broffesiwn Ymholgar	Astudiaeth annibynnol ar y campws– darllen a dylunio ymchwil. Tiwtorialau unigol Erbyn 2 o'r gloch heddiw, bydd angen i chi gyflwyno eich Cwestiwn Ymchwil i'ch tiwtor trwy 'Microsoft Forms'. Os bydd problem gyda'r cwestiwn ymchwil, bydd eich tiwtor mewn cysylltiad i drefnu tiwtorial ar-lein ar y 14/03/24.	
12/03/24 2:00-4:00	11 Bod yn Ymchwilydd Medrus	Astudiaeth annibynnol ar y campws – darllen a dylunio ymchwil.	
13/03/24		Diwrnod Paratoi Ymchwil yn yr Ysgol	
14/03/24 9:00-11:00	12 Bod yn Ymchwilydd Medrus	Cyflwyniad i'r ffurflen foeseig. Ymunwch ar-lein gydag arweinwyr y modiwl. Astudiaeth annibynnol – e.e. paratoi cwestiynau cyfweiliad, taflenni arsylwi Cefnogaeth cymheiriaid a thiwtor	9:00 – 10:00 

14/03/24 11:00-1:00	13 Bod yn Ymchwilydd Medrus	Astudiaeth annibynnol Cefnogaeth cymheiriaid a thiwtor	
14/03/24 2:00-4:00	14 Bod yn Ymchwilydd Medrus	Astudiaeth annibynnol Cefnogaeth cymheiriaid a thiwtor	
15/3/24 9:00-11:00	15 Bod yn Ymchwilydd Moesegol	Cwblhau'r Ffurflen Foeseg. Dewch ag unrhyw gwestiynau am foeseg i'r sesiwn hon. <u>Cyflwyno'r ffurflen foeseg</u>	
15/3/24 11:00-1:00	16 Bod yn Ymchwilydd Medrus	Dadansoddi Data Ansoddol	
Darllen a Argymhellir		Braun, V. and Clarke, V. (2006) Using Thematic Analysis in Psychology. Qualitative Research in Psychology, 3, 77-101.	
15/03/24 2:00-4:00	17 Bod yn Ymchwilydd Medrus	Bod yn barod i ymchwilio – cwestiwn ymchwil a dyluniad Astudiaeth ymchwil – Gweithgaredd Marchnad gydag adborth gan gymheiriaid Bydd cyfoedion yn adolygu'n feirniadol y cwestiynau ymchwil a'r offer ymchwil drafft (e.e. cwestiynau cyfweld, taflen arsylwi ac ati). Rhowch adborth adeiladol mewn perthynas â 'bod yn ymarferydd moesegol': A yw dyluniad yr astudiaeth ymchwil yn foesegol ym mhob agwedd? A yw'r ffocws wedi'i seilio ar ddull trawsnewidiol a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar ddysgu disgyblion? A yw'r offer ymchwil yn cyd-fynd â ffocws yr astudiaeth ymchwil?	
18/3/24 11:00-1:00	18	Sesiwn cefnogi'r aseiniad	

03/05/24	Diwrnod Ysgrifennu	
Cysylltiadau gyda'r Llwybr SAC	Cynlluniwch astudiaeth ymchwil sy'n berthnasol i'ch dosbarth lleoliad PAP1. Dadansoddi a gwerthuso data yn unigol. Gwnewch argymhellion priodol er mwyn trawsnewid agwedd ar addysgu a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar ddysgu disgyblion. Ewch â'r deilliannau ymchwil ymlaen i'r Profiad Addysgu Proffesiynol a defnyddiwch yr adfyfrio ar effaith i ddangos tystiolaeth o Safonau Proffesiynol ar gyfer SAC e.e. ADDYSGEG: Symud Dysgu yn ei flaen DYSGU PROFFESIYNOL: Darllen ehangach a chanfyddiadau ymchwil ARLOESI: Gwerthuso effaith newidiadau'n ymarferol	

6. Tasgau a chanllawiau asesu

COD Y MODWL	TEITL Y MODWL	DULL ASESU
ECAD7004C	Astudiaethau Proffesiynol ac Addysgegol: Ymchwilio i'r Dysgu: beth, sut a pham rydw i'n addysgu?	Gwaith cwrs (100%): Aseiniad Ysgrifenedig Unigol <i>Prosiect Ymchwil – Astudiaeth Achos (4500 o eiriau YNGHYD Â chyflwyno atodiadau)</i> Astudiaeth achos archwiliadol sy'n deillio o ymarfer (sylwi) ac ymchwiliad pellach drwy'r offer ymchwil a nodwyd. Mae'r aseiniad yn gorffen gydag adnabyddiaeth ymyrraeth y gellir ei dreialu trwy PAP a'i dystiolaethu trwy fyfyrion yn y PDP (safonau dysgu proffesiynol). Cyflwyniad: 07/05/24 (23.59)

Gweler y ffurflen Manyleb Asesu (ar Moodle) am wybodaeth a chanllawiau asesu manylach.

Wrth i chi weithio ar eich aseiniadau, efallai y byddwch yn ystyried defnyddio systemau Deallusrwydd Artiffisial (AI) ar gyfer ymchwil gefndirol. Mae'n dderbyniol defnyddio'r offer hyn fel adnodd, ond mae'n bwysig bod yn ymwybodol eu bod yn aml yn gwneud camgymeriadau ac efallai na fyddant yn hollol gywir, yn enwedig pan ofynnir am gyfeiriadau academiaidd. Rhaid i chi gofio fel myfyriwr eich bod yn gyfrifol yn y pen draw am bopeth rydych yn ei gyflwyno, a gall dibynnu'n gyfangwbl ar AI arwain at gael gradd is nag yr ydych yn gallu ei chyflawni, neu hefyd gall arwain at ymchwiliad am gamymddwyn academiaidd. Mae copïo a gludo testun yn uniongyrchol o'r offer hyn heb gyfeiriad neu ddyfyniad priodol nid yn unig yn anfoesol ond hefyd gall arwain at ganlyniadau difrifol megis methu'r aseiniad neu hyd yn oed cael eich diarddel o'r brifysgol. Felly, mae'n hanfodol defnyddio AI fel man cychwyn ac yna gwirio ac ystyried unrhyw wybodaeth sydd ar gael.

7. Rhestr ddarllen

Cod y Modwl	ECAD7004C	
Teitl y Modwl	Astudiaethau Proffesiynol ac Addysgegol: Ymchwilio i'r Dysgu: beth, sut a pham rydw i'n addysgu?	
Categori	Rhestr ddarllen	Electronig
Hanfodol	Bruce, T., Louis, S. & McCall, G. (2014) <i>Observing Young Children</i>. London: Sage Publications Ltd.	☒
Hanfodol	Cohen, L., Manion, L. & Morrison, K. (2018) <i>Research Methods in Education</i> , 8 th edition. London: Routledge. 6ed argraffiad ar gael yma: https://islmblogblog.files.wordpress.com/2016/05/rme-edu-helpline-blogspot-com.pdf	☒
Hanfodol	Constantinos, N. (2006) Review: Punch, K. (2005). Introduction to Social Research-Quantitative & Qualitative Approaches. Forum, qualitative social research, 7(2), pp.Forum, qualitative social research, 2006-04-01, Vol.7 (2)	☒
Hanfodol	Denscombe, M. (2014) Good Research Guide For Small-Scale Social Research Projects 5th ed., McGraw-Hill Education.	☒
Hanfodol	May, T. & Perry, B. (2011) <i>Social Research and Reflexivity: Content, Consequence and Context</i>. London: Sage Publications Ltd.	☒
Hanfodol	McNiff, J. (2012) <i>Action research: Principles and practice</i>. London: Routledge.	☒
Hanfodol	Noffke, S. E. & Somekh, B. (eds.) (2009) <i>The Sage Handbook of Educational Action Research</i>. London: Sage Publications Ltd.	☒
Hanfodol	MacRae C. and Jones, L. (2020) A philosophical reflection on the "Leuven Scale" and young children's expressions of involvement, International Journal of Qualitative Studies in Education. International Journal of Qualitative studies in Education. Routledge.	☒
Pellach	Alderson, P. & Morrow, V. (2011) <i>The Ethics of Research with Children and Young People: A Practical Handbook</i>. London: Sage Publications Ltd.	☒
Pellach	Baxter, P. & Jack, S. (2015) Qualitative Case Study Methodology: Study Design and Implementation for Novice Researchers. Qualitative report, pp.Qualitative report, 2015-01-14.	☒
Pellach	Bell, J. & Waters, S. (2018) <i>Doing Your Research Project: A guide for first-time researchers</i>, 7th edition. Maidenhead: Open	☒

	University Press.	
Pellach	Evan P. A., Michael I. N.& Samuel R. S. (2012) <i>Racial Color Blindness: Emergence, Practice, and Implications</i>. Current directions in psychological science: a journal of the American Psychological Society, 21(3), pp.205–209.	☒
Pellach	Estyn (2018) Defnyddio canfyddiadau ymchwil ac ymchwil weithredu i wella addysgu www.estyn.llyw.cymru/arfer-effeithiol/defnyddio-canfyddiadau-ymchwil-ac-ymchwil-weithredu-i-wella-addysgu?_ga=2.197786095.1937063222.1663764687-1965626474.1649345200	☒
Pellach	Israel, M (2014) <i>Research Ethics and Integrity for Social Scientists: Beyond Regulatory Compliance</i>. Washington: Sage Publications Ltd.	☒
Pellach	Lewis, V., Kellett, M., Robinson, C., Fraser, S. & Ding, S. (2004) <i>The Reality of Research with Children and Young People</i>. London: Sage Publications Ltd.	☐
Pellach	Martlew, J., Stephen, C. & Ellis, J. (2011) Play in the primary school classroom? The experience of teachers supporting children's learning through a new pedagogy, Early Years, 31:1, 71-83	☒
Pellach	Sachs, J. (2010) <i>Learning to improve or improving learning: the dilemma of teacher development</i>	☒
Pellach	Thomas, G. (2013) <i>How to do your research project: A guide for students in education and applied social sciences</i>. London: Sage Publications Ltd.	☒

Darlleniadau a Argymhellir		
1	British Education Research Association (2018) Ethical Guidelines for Educational Research, 4 th edition. BERA. Ethical Guidelines for Educational Research, fourth edition (2018) BERA	☒
2	Blackburn, C. (2018) Researching with young and developmentally young children: Ethical considerations, dilemmas and compromises. In <i>BERA Bites: Early Childhood</i>, Issue 1.	☒
3	David, M., Edwards, R. & Alldred, P. (2001) Children and School-based Research: 'informed consent' or 'educated consent'? In	☒

	<i>British Educational Research Journal</i>, Vol. 27, No. 3, pp.347-365.	
4	Kawulich, B. (2012) Collecting data through observation. In Wagner, C., Kawulich, B. & Garner, M. (eds.) <i>Doing Social Research: A Global Context</i> . McGraw Hill; pp150-160. https://www.researchgate.net/publication/257944783_Collecting_data_through_observation	☒
5	ECRP (2005) Wondering with Children: The Importance of Observation in Early Education. <i>ECRP Vol. 7, No. 2.</i>	☒
6	Danby, S.J., Ewing, L. & Thorpe, K.J. (2011) The novice researcher: interviewing young children. <i>Qualitative Enquiry</i>, 17(1), pp. 74-84.	☒
7	Hamilton, L. (2011) Case studies in educational research, British Educational Research Association on-line resource. Case studies in educational research BERA	☒
8	Zainal, Z. (2007). Case Study as a Research Method. <i>Jurnal Kemanusiaan</i> , 9, 1-6. (PDF) Case study as a research method (researchgate.net)	☒